**CYFARFOD BLYNYDDOL CYDBWYLLGOR Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR**

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod,27 Medi, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol:

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Cynghorwyr M. Lewis a R. Goode (Is-Gadeirydd).

Yn cynrychioli Cyngor Dinas a Sir Caerdydd – Cynghorydd D. De'Ath.

Yn cynrychioli Cyngor Bro Morgannwg - Cynghorwyr P. Drake a R. Sivagnanam (Cadeirydd).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd M. Michael Cyngor Dinas a Sir Caerdydd.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod blynyddol a gynhaliwyd ar 28 Mehefin, 2022 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. ARCHWILIO CYMRU – YMHOLIADAU ARCHWILIO I'R RHAI SY'N GYFRIFOL AM LYWODRAETHU A RHEOLI (PC/SA 151) –

PENDERFYNWYD - Nodi cynnwys yr adroddiad.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. ARCHWILIAD O DDATGANIADAU ARIANNOL Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR 2021/22 (PC/SA 151) -

(1) Cymeradwyo, llofnodi a dyddio Datganiad Cyfrifon 2021/22 y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir gan Gadeirydd y Pwyllgor.

(2) Cytuno ar y Llythyr Cynrychiolaeth i Archwilio Cymru ar gyfer 2021/22, ei lofnodi a’i ddyddio gan Gadeirydd y Pwyllgor.

(3) Nodi adroddiad yr Archwilydd Penodedig ar yr archwiliad o’r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2021/22.

(4) Cymeradwyo, llofnodi a dyddio Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22 y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir gan Gadeirydd y Pwyllgor, Cadeirydd Bwrdd Rheoli’r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a Phennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Er mwyn cymeradwyo’r Datganiad Cyfrifon cyn y dyddiad cau.

(2) Er mwyn dychwelyd y Llythyr Cynrychiolaeth i Archwilio Cymru.

(3) Wedi ystyried canlyniadau’r archwiliad o Ddatganiadau Ariannol 2021/22 y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

(4) Er mwyn cymeradwyo a llofnodi Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22 y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

EITEM AGENDA 6. TROSOLWG A DIWEDDARIAD AR WASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR (CAT) –

PENDERFYNWYD -

(1) Cytuno ar gynnwys yr adroddiad.

(2) Cymeradwyo’r Cynllun Iechyd Porthladdoedd drafft ar gyfer 2022-23 i'w ddefnyddio yn rhanbarth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

(3) Cymeradwyo’r Cynllun Clefydau Troslgwyddadwy ar gyfer 2022-23 i'w ddefnyddio yn rhanbarth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Wedi ystyried yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Wedi ystyried cynnwys y Cynllun Iechyd Porthladdoedd drafft ar gyfer 2022-23.

(3) Wedi ystyried cynnwys y Cynllun Clefydau Trosglwyddadwy ar gyfer 2022-23.

EITEM AGENDA 7. CYNLLUN GWASANAETH GORFODI CYFRAITH BWYD A BWYD ANIFEILIAID Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR AR GYFER Y GWASANAETH RHEOLIADOL A RENNIR AR GYFER 2022/23 (CAT) -

PENDERFYNWYD -

(1) Cymeradwyo’r Cynllun Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid ar gyfer 2022-23 i'w ddefnyddio yn rhanbarth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

(2) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud diwygiadau gweinyddol i’r Cynllun Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid ar gyfer 2022-23 yn ôl yr angen.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn sicrhau bod y cynllun yn parhau'n gyfredol pe bai unrhyw newidiadau yn y gyfraith neu arfer gorau yn cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod.